



Amniocentesis

(Cymraeg)

Mae gwybodaeth yn y daflen yma am y weithred o'r enw amniocentesis rydych chi wedi cael cyfle i'w chael.

Efallai y cawsoch chi gyfle i gael amniocentesis oherwydd:

- bod canlyniad eich prawf sgrinio ar gyfer syndrom Down yn dangos bod siawns uwch gennych chi o gael babi â syndrom Down;
- rydych chi wedi cael sgan uwchsain sy'n awgrymu bod siawns uwch fod cromosomau annormal gan eich babi;
- bod plentyn gennych yn barod sydd ag anhwylder cromosomaidd neu fod anhwylder cromosomaidd neu anomaledd cynhenid (problem ar adeg y geni) wedi cael ei ganfod mewn beichiogrwydd blaenorol (oedd heb gyrraedd cyfnod llawn);
- rydych chi'n cario cyflwr wedi'i etifeddu (er enghraifft, anhwylderau cryman-gell); neu
- fod haint fel tocsoplasmosis arnoch chi a allai greu problemau yn natblygiad eich babi.

Os byddwch chi'n penderfynu cael amniocentesis, mae gwybodaeth amdano ar dudalen 6 y daflen.

Gallai'r wybodaeth eich helpu i benderfynu a ydych chi am gael y weithred yma.

Gall eich bydwaig a'ch obstetregydd roi mwya o wybodaeth i chi.



Cymraeg Clir
cyfieithwyd gan Ganolfan Bedwyr
Prifysgol Cymru, Bangor

www.sgriniocyngeni.org

Ebrill 2009

A5

Rhagarweiniad

Dull o gymryd ychydig iawn (tua 15-20 mililitr) o'r hylif amniotig sydd o gwmpas y babi yn eich croth yw amniocentesis. Mae'n bosib archwilio mewn labordy y celloedd o'ch babi sydd yn yr hylif yma er mwyn edrych ar y cromosomau. Mae'n bosib gwneud amniocentesis ar ôl wythnos 14 o'r cyfnod cario (ond mae'n cael ei wneud fel arfer ar ôl wythnos 15).

Os byddwch chi'n cael amniocentesis, mae siawns o 1% y gallech chi gael erthyliad naturiol (*miscarriage*) (sy'n golygu y gallai un fenyw ym mhob 100 golli ei babi). Mae'n fwyaf tebygol y byddai'r erthyliad naturiol yn digwydd yn ystod y tair wythnos ar ôl cael amniocentesis. Dydi hi ddim yn glir pam mae hyn yn digwydd ac nid yw'n bosib rhagweld pwy fydd yn erthyly. Mae'n gallu digwydd p'un a oes problem ar gromosomau'ch babi neu beidio.

Gan fod amniocentesis yn cael ei gynnis i rai menywod yn unig, efallai na fyddwch chi'n gallu ei gael yn yr uned famolaeth rydych chi'n arfer mynd iddi. Yn lle'r uned honno, efallai y byddwch chi'n mynd i uned famolaeth wahanol, lle mae'r obstetregydd wedi cael ei hyfforddi i wneud y weithred.

Os oes haint fel HIV, hepatitis B neu hepatitis C arnoch chi, efallai y bydd angen mwy o wybodaeth a chyngor arnoch chi gan feddyg sy'n arbenigo ar glefydon heintus, cyn i chi benderfynu a fyddwch chi'n cael amniocentesis neu beidio.

Gall eich bydwaig neu'ch obstetregydd esbonio'r prawf i chi.

Mae angen i chi benderfynu a ydych chi am gael y weithred neu beidio.

Os byddwch chi'n penderfynu cael amniocentesis, efallai y byddwn ni'n gofyn i chi lofnodi ffurflen yn rhoi eich caniatâd (y ffurflen ganiatâd), cyn i'r weithred gael ei gwneud.

Profion cromosomaid

Ym mhob un o gelloedd ein cyrff, mae gennym ni 46 cromosom (23 pâr) fel arfer. Mae'r cromosomau wedi'u rhifo o 1 i 22, a'r 23^{af} pâr yw'r cromosomau rhyw: XX ar gyfer merch fel arfer, ac XY ar gyfer bachgen fel arfer. Mae pob un o'r cromosomau'n cario miloedd o enynnau, sef y cyfarwyddiadau sy'n dweud wrth ein cyrff sut mae tyfu, datblygu a gweithredu.

Yng Nghymru, mae'n bosib gwneud dau brawf gwahanol ar yr hylif amniotig. Mae manylion y profion yn dilyn:

Prawf PCR (adwaith cadwynol polymerase)

Fel arfer, dim ond am y tair problem gromosomaid sy'n dilyn y mae'r prawf PCR yn chwilio.

- Syndrom Down - sy'n achosi rywfaint o anabledd dysgu ond nid yw fel arfer yn peryglu bywyd y babi. Weithiau mae'r problemau corfforol (fel problemau ar y galon) sy'n

gysylltiedig â syndrom Down yn gallu peryglu ei fywyd.

- Syndrom Edward – anhwylder cromosomaidd difrifol sy'n gallu peryglu bywyd y babi.
- Syndrom Patau – anhwylder cromosomaidd prin a difrifol sy'n gallu peryglu bywyd y babi.

Weithiau mae'n bosib defnyddio'r prawf PCR i chwilio am gyflyrau penodol eraill. Fe gewch chi gyfle i drafod y sefyllfa gyda'ch obstetregydd neu'ch cyngorwr genetig.

Mae'r prawf PCR yn chwilio am y problemau cromosomaidd mwyaf cyffredin. Efallai y bydd y prawf caryoteip yn canfod problemau neu newidiadau cromosomaidd eraill, ond mae'r rhain yn llai cyffredin (mae'r adran nesaf yn manylu). Gall hyn ddigwydd hyd yn oed os yw canlyniad eich prawf PCR yn normal.

Prawf caryoteip

Mae'r prawf yma'n cymryd mwy o amser na'r prawf PCR ond bydd yn canfod y rhan fwyaf o broblemau cromosomaidd.

I wneud y prawf yma, mae celloedd eich babi sydd yn yr hylif amniotig yn cael eu tyfu yn y labordy. Creu meithriniaid [*culture*] yw'r enw ar hyn, ac mae'n cymryd tua 12 diwrnod. Bydd staff y labordy'n archwilio'r celloedd dan ficrosgop i chwilio am newidiadau yn

nifer ac ymddangosiad cromosomau'ch babi.

Ni fydd prawf caryoteip yn canfod **pob** newid yn y cromosomau. Mae rhai mân newidiadau'n amhosib eu gweld, hyd yn oed dan ficrosgop. Dim ond profion arbenigol ychwanegol sy'n gallu canfod rhai newidiadau. Nid yw'r profion yma'n cael eu gwneud wrth wneud prawf caryoteip.

Ni fydd y prawf caryoteip yn canfod:

- newidiadau mewn genynnau unigol, er enghraifft, ffibrosis systig (gan fod miloedd o enynnau yn mhob un o'r cromosomau);
- microddileadau (colli segmentau bach o gromosom); neu
- fân newidiadau eraill yn y cromosomau.

Anhwylderau un genyn

Newidiadau yn un o'r genynnau sy'n achosi anhwylderau un genyn. Os oes hanes yn eich teulu o anhwylder sy'n cael ei etifeddu sy'n golygu bod un genyn unigol yn newid (fel ffibrosis systig), efallai y byddwch chi'n cael cyfle i gael prawf penodol – prawf un genyn – ar ei gyfer. Efallai'ch bod wedi siarad yn barod â rhywun o'r gwasanaeth geneteg. Fel arall, gall eich bydwaig neu'ch obstetregydd eich cyfeirio at y gwasanaeth geneteg ar ôl cael gwybod gennych am hanes yn eich teulu o anhwylder wedi'i etifeddu. Os bydd y prawf un genyn yma'n cael ei wneud ar sampl o'r hylif amniotig, byddwch chi'n cael cyfle fel arfer i gael prawf caryoteip hefyd.

Os yw'r canlyniad yn dangos y drefn a'r nifer arferol o gromosomau, nid yw hyn yn gwarantu nad oes problem ar eich babi.

Nid yw canlyniad prawf PCR a phrawf caryoteip yn dangos sut mae'ch babi'n tyfu ac yn datblygu. Dim ond sgan uwchsain rhwng wythnosau 18-20 o'r cyfnod cario, pan mae'ch babi bron wedi ffurfio'n llawn, sy'n gallu dangos hyn.

Os oes problem

Bydd problem yn cael ei chanfod gydag ambell i feichiogrwydd. Os oes problem, fe gewch chi wybodaeth a chefnogaeth a fydd yn eich helpu i benderfynu beth i'w wneud ynglŷn â'r beichiogrwydd. Mae arbenigwyr ar gael sy'n gallu rhoi gwybodaeth i'ch helpu i benderfynu. Yn eu plith mae ymgynghorwyr meddygaeth y ffetws, genetegwyr a phaediatregwyr.

Bydd rhai menywod yn dewis paratoi ar gyfer geni'r babi gan wybod bod problem arno. Efallai y bydd rhai menywod yn dewis terfynu'r beichiogrwydd, a bydd rhai eraill yn penderfynu parhau'r beichiogrwydd ac yn rhyddhau'r babi i gael ei fabwysiadu. Mae'r rhain yn benderfyniadau anodd a byddwch chi'n cael amser a gwybodaeth i'ch helpu i wneud y penderfyniad sy'n iawn i chi.

Mae cael gwybod bod problem ar eich babi'n creu gofid, ac mae'n anodd penderfynu beth i'w wneud. Mae angen

peth cefnogaeth ar y rhan fwyaf o fenywod. Gallech chi gael y gefnogaeth gan eich partner, eich teulu neu'ch ffrindiau neu gan weithwyr y proffesiynau iechyd sy'n gofalu amdanoch chi. Mae croeso i chi ofyn i'ch partner neu ffrind ddod gyda chi ar gyfer yr apwyntiadau yn yr ysbyty.

Gall y prawf caryoteip ganfod sawl math o annormaledd ar y cromosomau. Gallai hynny olygu bod y canlyniad yn dangos bod problem wahanol ar eich babi, er nad oes syndrom Down, syndrom Edward neu syndrom Patau arno.

Os bydd hyn yn digwydd, byddech chi'n cael cyfle i drafod y canlyniad â meddyg a bydwaig sy'n arbenigo ar sgrinio cyn geni. Byddech chi hefyd yn cael cyfle i drafod y canlyniad â rhywun sy'n arbenigo ym maes geneteg.

Er mwyn canfod a oes problem ar eich babi, efallai y bydd angen i ni ofyn i chi a thad y babi roi samplau o waed.

Mwy o wybodaeth

Gallwch chi gael mwy o wybodaeth o:

Antenatal Results and Choices (ARC)
73 Charlotte Street
Llundain
W1T 4PN

Llinell gymorth: 0207 631 0285
Gwefan: www.arc-uk.org
E-bost: info@arc-uk.org

Os byddwch chi'n penderfynu cael amniocentesis

Paratoi ar gyfer amniocentesis

- Gallwch chi fwyta brechwast neu ginio ysgafn cyn eich apwyntiad.
- Mae angen i'ch pledren (*bladder*) fod yn llawn ar gyfer y sgan sy'n cael ei wneud cyn yr amniocentesis. Ond mae'n bosib y bydd rhaid i chi wagu'ch pledren ar gyfer yr amniocentesis.
- Efallai y byddech chi'n fwy cyfforddus mewn dillad llac.
- Gallwch chi ddod â'ch partner neu ffrind gyda chi i fod yn gefn i chi yn ystod ac ar ôl y weithred, ond peidiwch â dod â phlant.
- Os yw'n bosib, trefnwch fod rhywun ar gael i'ch gyrru chi gartref.

Sut mae'r amniocentesis yn cael ei wneud?

Mae'n cymryd rhyw 10 munud i wneud yr amniocentesis, a byddwch chi'n glaf allanol mewn clinig cyn geni fel arfer. Byddwch chi'n effro ar gyfer y weithred, ac yn gorwedd i lawr.

Byddwch chi'n cael sgan uwchsain cyn yr amniocentesis. Pwrpas y sgan yw gweld safle'r babi ac i chwilio am y man gorau i gymryd sampl o'r hylif sydd yn eich croth. Bydd eich abdomen yn cael ei lanhau gyda hylif antiseptig er mwyn lleihau'r perygl o heintiau. Mae'r meddyg yn rhoi nodwydd drwy eich croen a wal eich croth, ac yn tynnu ychydig iawn o'r hylif sydd o gwmpas eich babi. Bydd y meddyg yn gwyllo'r sgan uwchsain er mwyn peidio â rhoi'r nodwydd yn rhy agos at y babi. Mae'r prawf yn gallu bod yn anghyfforddus, ond ni ddylai fod yn boenus.

Mae'n amhosib gwneud y prawf weithiau oherwydd safle'r babi. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y bydd y meddyg yn awgrymu rhoi cynnig arall arni ar ddiwrnod arall.

Mewn achosion prin iawn, mae'n amhosib i'r meddyg dynnu unrhyw hylif amniotig o'r groth. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosib gwneud y prawf. Efallai y bydd y meddyg yn awgrymu rhoi cynnig arall arni ar ddiwrnod arall.

Beth sy'n digwydd ar ôl y weithred?

Mae'n bosib y bydd gofyn i chi orffwys yn y clinig am hyd at hanner awr ar ôl y weithred. Mae rhai menywod yn teimlo cramp ysgafn fel poen mislif ar ôl amniocentesis.

Os yw'ch grŵp gwaed yn Rhesws negatif, byddwch chi'n cael cyfle i gael pigiad gwrth-D ar ôl y weithred. Ei bwrpas yw lleihau'r posibilrwydd o weld

gwrthgyrff (*antibodies*) yn datblygu yn eich gwaed. Gallai hyn ddigwydd os yw gwaed eich babi'n Rhesws positif.

Efallai y bydd rhai meddygon yn eich cynghori i gymryd pethau'n dawel am ddiwrnod neu ddau ar ôl y weithred, ac i osgoi rhyw ac i beidio â chodi pethau trwm neu wneud ymarfer corff egniol. Ond nid oes angen i chi aros yn eich gwely.

Os byddwch chi'n teimlo unrhyw boen neu anghysur, gallwch chi gymryd dos arferol o baracetamol.

Mae'r rhan fwyaf o fenywod yn barod i aildechrau eu gweithgareddau arferol ar ôl dau ddiwrnod.

Cadwch eich llygaid ar agor am y rhain:

- Poenau drwg sydd ddim yn cael eu rheoli gan gyffuriau lleddfu poen arferol (fel paracetamol).
- Unrhyw waedu neu redlif (*discharge*) annymunol o'ch gwain.
- Unrhyw hylif yn gollwng o'ch gwain.
- Teimlo'n anhwylyus yn sydyn gyda thymheredd uchel neu symptomau ffliw.

Nid yw'r symptomau yma'n golygu bob amser fod rhywbeth o'i le, ond efallai y bydd angen mwy o ofal a sylw arnoch chi. I gael cyngor, cysylltwch â'r:

- clinig lle cawsoch chi'r amniocentesis; neu
- eich bydwaig.

Cael canlyniadau'r prawf

Bydd eich bydwaig, meddyg neu enetegwr yn trafod â chi sut yr ydych chi'n dymuno cael y canlyniad. Efallai y byddai'n well gennych chi ddod i'r ysbyty eich hun i gael y wybodaeth er mwyn cael siarad â rhywun a allai ateb eich cwestiynau. Mae'r amser mae'n cymryd i gael canlyniadau profion anhwylderau un genyn yn amrywio. Bydd y tîm geneteg yn trafod sut byddwch chi'n cael canlyniadau'r profion yma.

Canlyniad PCR

Fel arfer, mae canlyniad prawf PCR ar gael cyn pen tri diwrnod.

Mae tua un o bob 25 o samplau amniocentesis yn anaddas ar gyfer prawf PCR. Os bydd hyn yn digwydd, bydd rhaid i chi aros am ganlyniad y caryoteip, ond nid yw'n golygu bod problem ar y babi. Yn achos tua 4% neu 5% o brofion PCR (pedwar neu bump o bob 100 o brofion), mae angen i ni ofyn am samplau o waed gennych chi a thad y babi i'n helpu i gael canlyniad cliriach. Unwaith eto, nid yw hyn fel arfer yn golygu bod problem ar y babi.

Canlyniad caryoteip

Fel arfer, mae canlyniadau'r caryoteip yn barod cyn pen tua phythefnos.

Weithiau, mae'n cymryd mwy o amser i dyfu'r celloedd yn y labordy, a bydd rhaid i chi aros rhai dyddiau'n ychwanegol am y canlyniad. Nid yw'r ffaith fod y celloedd yn tyfu'n arafach yn golygu bod problem ar eich babi.

Weithiau, yn achos tua 0.3% o brofion (hynny yw, un o bob 300 o brofion), nid yw'r celloedd yn tyfu yn y labordy ac ni fydd y prawf caryoteip yn rhoi canlyniad. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y byddwch chi'n cael cyfle i gael amniocentesis arall.

Yn achos tua 1% o brofion (hynny yw, un o bob 100 o brofion), nid oes canlyniad clir. Weithiau mae'r celloedd yn tyfu mewn ffordd sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r labordy ddweud yn bendant a oes problem. Efallai y byddwch chi'n cael cyfle i gael mwy o brofion.

Bydd y prawf caryoteip yn dangos rhyw eich babi. Os nad ydych chi'n awyddus i wybod rhyw'r babi, dywedwch wrth eich bydwraig neu'ch meddyg.

Gallwch chi gael mwy o wybodaeth am ganlyniadau profion amniocentesis gan eich bydwraig neu o'r clinig lle cawsoch chi'r amniocentesis.

